

Cofnodion Cyfarfod **Cyngor Cymuned Penbryn** a gynhaliwyd nos Fawrth, Ionawr 7ed 2025 yn Neuadd Goffa Penbryn/*Minutes of Penbryn Community Council Meeting held on Tuesday, January 7<sup>th</sup> 2025 at Penbryn Memorial Hall.*

Yn bresennol/*Present*

Cynghorwyr/*Councillors* Caerwyn Owen, Gareth Evans, Teifi Davies, Melva Phillips, Delfryn Owens, Jonathan Rees, Walwyn Jones, Gwyn James.

**1 Ymddiheuriadau/Apologies**

Cynghorwyr/*Councillors* Barri Davies, William Anwyl, Elen Mathias.

**2 Datgelu Buddiannau Personol/Disclosure of Personal Interests**

Dim Byd Perthnasol/*No Relevance*

**3 Materion Personol/Personal Matters**

Mae chwaer Melva, Linda, ar wellhad yn dilyn salwch, a bu farw'r cyn-Gynghorydd Haydn Lewis yn ddiweddar.

*Melva's sister, Linda, is on the road to recovery following illness, and the former Councillor Haydn Lewis died recently.*

**4 Cofnodion Cyfarfod Mis Rhagfyr/Minutes of December Meeting – 3/12/24**

Cynigiwyd gan Teifi eu bod yn gywir a'i eilio gan Gwyn.

*Proposed to be correct by Teifi and seconded by Gwyn.*

**5 Materion yn Codi/Matters Arising**

i) Gohebu ag Elin Jones/*Elin Jones Correspondence*

Adroddodd y Clerc ei fod wedi gohebu ag Elin Jones ynglyn â ffynonellau ariannol amgen posibl gan Lywodraeth Cymru tuag at gynnal gwasanaethau ar hyd llwybr yr arfordir. Gwnaethpwyd hyn yng nghyd-destun cyllido tai bach cyhoeddus.

*The Clerk stated that he had corresponded with Elin Jones regarding possible alternative financial sources towards maintaining services along the coastal path.*

*This was done within the context of financing public toilets.*

ii) Padiâu'r Deffibrilydd/*Defibrillator Pads*

Nododd Delfryn ei fod wedi prynu padiâu newydd ar gyfer y deffibrilydd.

*Delfryn informed us that he had bought replacement defibrillator pads.*

iii) Dŵr yn cronni ger fferm Temple Bar/*Water amassing near Temple Bar Farm*

Eglurodd Teifi fod dŵr yn dal i gronni ar yr heol rhwng Temple Bar a Thre'r Wylan.

Esboniodd fod y cwteri ar y cornel wedi gorlenwi a gorlifo a bod angen eu glanhau.

Cytunwyd yn unfrydol i gysylltu â gwasanaeth Clic Cyngor Ceredigion.

*Teifi explained that water was continuing to amass on the road between Temple Bar and Tre'r Wylan. He added that the gutters on the corner were overflowing and that they needed to be cleaned. It was unanimously agreed to contact Ceredigion's Clic service.*

**6 Toiledau Cyhoeddus Tresaith/Public Toilet Provision at Tresaith**

i) Y datblygiad pennaf yw ein bod wedi derbyn gwybodaeth bellach ynghylch costau cynnal a chadw toiledau Tresaith. Rhwng cyflogau a chostau beunyddiol cafwyd

amcangost o £8404.93 ar gyfer 2024/25. Ni synnwyd yr aelodau gan ei fod yn debyg iawn i'r hyn a ddisgwyld ganddynt. Trafodwyd hefyd y posibilrwydd o osod peiriant talu er mwyn lleihau costau cynnal y tai bach yn y pen draw. Cytunwyd yn unfrydol y byddai'r wybodaeth yn sylfaen i barhau gyda'r drafodaeth ar y cyd rhwng Cyngorau Aberporth ac Aberteifi. Y gwahaniaeth arall yw y bydd gennym bellach flwyddyn arall i ddod i benderfyniad terfynol ar ddyfodol y tai bach uchod.

*The main development is that we have received further information regarding maintenance costs for the toilets at Tresaith. Between salaries and daily costs the estimate for 2024/25 comes to £8404.93. No surprise was expressed as it reflected what they expected it would be. In order to reduce maintenance costs in the long run, the discussion to insert means of payment was raised. It was unanimously agreed that the new information would form a basis for further discussions with other councils on this matter. The other difference would be that we have an additional year to come to a final decision on this matter.*

## 7 Cyllid/Finance

### i) Balans/Balance

Balans Blaenorol/Previous Balance £14600.36

### Taliadau/Payments

Ad-daliad Delfryn/Delfryn's Reimbursement £275.59

Balans Newydd/New Balance £14324.77

### ii) Cymeradwyo Taliadau/Approval of Further Payments

Ad-daliad Delfryn (Padiu)/Delfryn's Reimbursement (Pads) £99.35

Cynnal a chadw toiledau Tresaith/ Maintenance at Tresaith Toilets £1200.00

### iii) Praesept 2025-26/Precept 2025-26

Cafwyd trafodaeth helaeth ac ystyrion ynghylch gosod y Praesept ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Barn y mwyafrif helaeth oedd nad oedd dewis ond cynyddu'r cyfanswm wrth ystyried y gwariant posibl ar flaenoriaethau'r dyfodol. Gyda'r posibilrwydd y byddwn yn cyllido cynnal tai bach Tresaith yn y dyfodol, ynghyd â chost archwilio cyfrifon y Cyngor ar y gorwel, y cwestiwn oedd faint o gynnydd fyddai'n briodol. Clywyd sylwadau gonest ac agored ar y pwnc gan nifer o'r aelodau. Yn y pen draw penderfynwyd codi'r cyfanswm o £12500 i £15000 i'w adolygu o flwyddyn i flwyddyn.

*An extensive and meaningful discussion was held regarding setting the Precept for the new financial year. The great majority were of the opinion that inevitably it had to increase considering possible future spending on priorities. With the possibility that we will be funding public toilets at Tresaith in the future, as well as auditing costs on the horizon, the question was by how much should it be increased. Many well respected opinions were expressed. Finally it was agreed to increase the amount from £12500 to £15000 to be reviewed annually.*

## 8 Cynllunio/Planning

A240913 Blaenbarre, Rhydlewis

DIM GWRTHWYNEBIAD/NO OBJECTIONS

## **9 Gohebiaeth/Correspondence**

- i) Maes Carafanau Brynawelon/*Brynawelon Caravan Park*  
Derbyniwyd gohebiaeth oddi wrth Karen Webster o Faes Carafanau Brynawelon yn nodi ei gwrthwynebiad i ddatblygiad arfaethedig Castell Pridd. Cydnabyddwn ei derbyn a fydd yn rhan o'n trafodaethau pan dderbyniwn y cais cynllunio uchod yn ffurfiol.  
*Correspondence was received from Karen Webster on behalf of Brynawelon Caravan Park stating her objections to the proposed Castell Pridd development. We acknowledge having received the correspondence which will form part of our discussions when we formally receive the planning application.*

## **10 Unrhyw Fater Arall/Any Other Business**

- i) Côt Ymddygiad/*Behaviour Code*  
Mae'n fwriad gan y Cyngor Sir gynnal cwrs Côt Ymddygiad i holl Glercod ac Aelodau Cynghorau Cymuned yr Awdurdod yn y dyfodol agos. Bydd y Clerc yn eich hysbysu pan ddaw rhagor o wybodaeth.  
*It is the County Council's intention to hold a course on Behaviour Code for all Clerks and Members of its Community Councils. The Clerk will inform all members when further information is received.*

## **11 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf/Date of Next Meeting**

Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Fawrth, Chwefror 4ydd 2025 am 7.30 y.h.  
*The next meeting will be held on Tuesday, February 4<sup>th</sup> 2025 at 7.30 p.m.*